

Blaenau Gwent

Dadansoddiad Twf Cyflogaeth

Atodiad i Adroddiad Tystiolaeth Ddemograffig y CDLI

Awst 2019



Nexus | Discovery Way | Prifysgol Leeds | Leeds | LS2 3AA 0113
819 5087 | www.edgeanalytics.co.uk



Cydnabyddiaeth

Mae'r ystadegau demograffig a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn wedi deillio o ddata gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol sydd wedi'u trwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored v.3.0.

Nid yw awduron yr adroddiad hwn yn derbyn atebolrwydd am unrhyw gostau neu golled ganlyniadol sy'n gysylltiedig yn dilyn y defnydd o'r data a'r dadansoddiad y cyfeirir atynt yma; cyfrifoldeb defnyddwyr yr wybodaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn gyfan gwbl yw hyn.

Cynnwys

Cydnabyddiaeth	i
Cynnwys	ii
Cyflwyniad	1
Cysylltu Poblogaeth a Chyflogaeth	1
Canlyniadau Twf Cyflogaeth	2
Casgliad	4

This document is available in English
Mae'r dogfen hon ar gael yn Saesneg

Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r ddogfen hon yn atodiad i'r prif adroddiad *Tystiolaeth Ddemograffig y CDLI*, a gynhyrchwyd ar ffurf drafft ar gyfer Blaenau Gwent, Sir Fynwy a Thorfaen.
- 1.2 Ar ôl derbyn rhagolwg cyflogaeth Oxford Economics ar gyfer Blaenau Gwent, mae'r atodiad hwn yn archwilio'r berthynas rhwng twf poblogaeth, tai a chyflogaeth o dan wahanol ragdybiaethau.
- 1.3 Bydd cynnwys yr atodiad yn cael ei integreiddio o fewn y prif adroddiad *Tystiolaeth Ddemograffig y CDLI* maes o law.

Cysylltu Poblogaeth a Chyflogaeth


- 1.4 Mae'r senarios demograffig wedi cyflwyno ystod o ganlyniadau twf poblogaeth, o ddirywiad poblogaeth o dan senario **LIC 2014 (Prif)**, i dwf cadarnhaol o dan senarios anheddau ac ymfudo uwch. Yn sail i bob senario mae newidiadau sylweddol ym mhroffil oedran poblogaeth Blaenau Gwent. Mae twf mawr yn yr ystod oedran 65+ yn anochel, o dan bob senario. Mae cynnal maint y gweithlu, grwpiau oedran 16-64, yn gofyn am gydbwysedd mewnfudo net uwch, wedi'i gefnogi gan dwf tai a chyfleoedd economaidd.
- 1.5 Yn allweddol i ystyried y berthynas ddeinamig rhwng maint newidiol y boblogaeth breswyl, y llafurlu a'r twf cyflogaeth yw tair rhagdybiaeth economaidd: (i) cyfraddau gweithgarwch economaidd (a elwir hefyd yn gyfraddau cyfranogiad y gweithlu); (ii) cyfradd ddiweithdra; a (iii) cymhareb cymudo.
- 1.6 Mae cyfraddau gweithgarwch economaidd yn pennu cyfran y boblogaeth sy'n cymryd rhan weithredol yn y gweithlu; naill ai'n gyflogedig neu'n ddi-waith. Yn y dadansoddiad a gyflwynir yma, mae cyfraddau gweithgarwch economaidd Blaenau Gwent wedi'u haddasu yn unol â rhagolwg Gorffennaf 2018 y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (SCC) o newidiadau hirdymor i gyfranogiad y gweithlu sy'n benodol i oedran. Yn ogystal, ystyriwyd cyflawni cyfraddau gweithgarwch economaidd cyfartalog Cymru ym Mlaenau Gwent.
- 1.7 Mae'r gyfradd ddiweithdra yn pennu'r gyfran o'r gweithlu sy'n ddi-waith (ac o ganlyniad, y gyfran sy'n cael ei gyflogi). Profodd Blaenau Gwent gyfnod o ddiweithdra uwch dros y cyfnod 2009–2013, gan adlewyrchu tueddiadau cenedlaethol. Rhwng 2013 a 2017 gostyngodd cyfradd ddiweithdra Blaenau Gwent i 5.4%, y pwynt isaf ers 2004. Yn y dadansoddiad senario demograffig a gyflwynir yma, caniateir i gyfradd ddiweithdra Blaenau Gwent leihau ymhellach, gan gyrraedd y gyfradd genedlaethol isaf (4.6%) erbyn diwedd cyfnod y cynllun.
- 1.8 Y gymhareb cymudo yw'r cydbwysedd rhwng cyflogaeth leol a maint y gweithlu preswyl. Mae

cymhareb cymudo sy'n fwy na 1.00 yn dynodi cymudo allan net (h.y. mae nifer y gweithwyr preswyl mewn ardal yn fwy na lefel y gyflogaeth). Mae cymhareb cymudo llai na 1.00 yn dangos mewngymudo net (h.y. mae cyfanswm y cyflogaeth yn fwy na nifer y gweithwyr preswyl). Cofnododd Cyfrifiad 2011 fod 28,400 o weithwyr yn byw ym Mlaenau Gwent a 22,115 o bobl yn gweithio yn yr ardal. Mae'r cydbwysedd rhwng y ddau yn arwain at gymhareb allan-gymudo net fawr o 1.28. Profir hefyd effaith lleihau'r

gymhareb gymudo o lefel 2011 i werth Cyfrifiad 2001 o 1.20 erbyn diwedd y cyfnod a ragwelir hefyd yn y dadansoddiad senario demograffig a gyflwynir yma.

Canlyniadau Twf Cyflogaeth


- 1.9 Mae'r adran hon yn ystyried pob un o senarios demograffig Blaenau Gwent ochr yn ochr â rhagolwg cyflogaeth diweddaraf Oxford Economics (**OE 'Gwaelodlin'**), gan ystyried sut y gallai amrywiadau mewn ymfudo, ynghyd ag amrywiadau ym mhob un o'r tri newidyn economaidd allweddol, fod yn sail i ganlyniadau twf cyflogaeth.
- 1.10 Mae Oxford Economics wedi cynhyrchu rhagolwg economaidd 'Sylfaenol' ar gyfer Blaenau Gwent, wedi'i lywio gan ganlyniad twf poblogaeth sy'n debyg i'r hyn a gyflwynwyd yn y senario **LIC 2014 (Prif)** (dirywiad poblogaeth erbyn 2033). Mae'r rhagolwg economaidd hwn yn amcangyfrif gostyngiad yng nghyfanswm cyflogaeth Blaenau Gwent o **72 y flwyddyn**¹, 2018-2033.
- 1.11 Mae rhagolwg '**Gwaelodlin**' **OG** yn darparu'r meincnod y cymherir canlyniadau twf cyflogaeth posibl y senarios demograffig, gan ddangos amcangyfrifon newid poblogaeth cymharol ochr yn ochr.
- 1.12 Yn y darlun cyntaf hwn, mae'r twf cyflogaeth amcangyfrifedig² sy'n gysylltiedig â phob un o'r senarios demograffig yn cael ei gyflwyno o dan dri rhagdybiaeth: cyfraddau gweithgarwch economaidd wedi'u haddasu yn unol â rhagolygon Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol; cyfradd ddiweithdra a chymhareb cymudo heb newid o'r lefelau presennol (Ffigur 1).



Ffigur 1: Blaenau Gwent – senarios twf poblogaeth a chyflogaeth (llinell sylfaen)


¹ Cyflogaeth yn y gweithle (personau)

1.13 Yn ail, mae addasiadau'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i gyfraddau gweithgarwch economaidd yn cael eu cyfuno â chyfradd ddiweithdra sy'n gostwng (4.6% erbyn 2033), gyda'r gymhareb gymudo yn aros yn ddigyfnewid. Mae twf cyflogaeth blyneddol cyfartalog yn codi o ganlyniad (Ffigur 2).




Ffigur 2: Blaenau Gwent – senarios twf poblogaeth a chyflogaeth (lleihau UR)

1.14 Yn drydydd, caniateir i gyfraddau gweithgarwch economaidd gyrraedd cyfartaledd Cymru erbyn 2033 (gan gynnwys addasiadau'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol), gyda chyfradd ddiweithdra yn gostwng a chydbwysedd cymudo heb ei newid. Mae twf cyflogaeth blyneddol cyfartalog yn codi ymhellach o ganlyniad (Ffigur 3).



Ffigur 3: Blaenau Gwent – senarios twf poblogaeth a chyflogaeth (lleihau UR + EA wedi'i addasu)

1.15 Yn olaf, gwneir yr holl addasiadau uchod (lleihau diweithdra, cyfraddau gweithgarwch economaidd wedi'u haddasu sy'n dychwelyd i gyfartaledd Cymru) ynghyd â chaniatáu i'r gymhareb gymudo ostwng o lefel Cyfrifiad 2011 (1.28) i werth Cyfrifiad 2001 o 1.20 erbyn diwedd y cyfnod a ragwelir. Mae hyn yn arwain at gynnydd pellach yn y twf cyflogaeth blynyddol cyfartalog (Ffigur 4).




Ffigur 4: Blaenau Gwent – senarios twf poblogaeth a chyflogaeth (UR yn lleihau + EA wedi'i addasu + CR yn lleihau)

Casgliad

- 1.16 Mae'r pedair set hyn o ganlyniadau senario yn dangos sut mae'r rhagolwg diweddaraf Oxford Economics ('Gwaelodlin' OE) yn cymharu â senarios twf sy'n ystyried twf poblogaeth uwch (wedi'i yrru gan fewnfudo net uwch), cyfraddau cyflogaeth (cyfraddau gweithgarwch economaidd uwch a diweithdra is) a chymhareb cymudo is, sy'n lleihau cydbwysedd cymudo allan. Cyflwynir y dystiolaeth yma i lywio proses CDLI Blaenau Gwent yng nghyd-destun tueddiadau demograffig a chyfleoedd economaidd sy'n dod i'r amlwg.
- 1.17 Mae modelu'r berthynas rhwng poblogaeth, tai a newid economaidd yn gymhleth ac yn heriol. Nid yw'r canlyniadau twf cyflogaeth a ddangosir ochr yn ochr â'r ystadegyn Oxford Economics uchod, yn rhagolygon economaidd; maent yn arwydd o sut y gallai twf poblogaeth drosi'n fwy o lafurlu a thwf cyflogaeth uwch o dan ragdybiaethau model rhagolygon gwahanol.
- 1.18 Mae cyflawni'r canlyniadau twf cyflogaeth uwch yn dibynnu ar gyflawni twf economaidd i Flaenau Gwent, gyda chefnogaeth twf tai, gan alluogi cynnal grwpiau oedran poblogaeth iau, llafurlu.

- 1.19 O ran canlyniadau twf anheddau, mae rhagolwg cyflogaeth diweddaraf Oxford Economics yn amcangyfrif twf blynyddol cyfartalog cymharol isel mewn anheddau, yn unol â'r hyn sy'n amlwg o dan senario Llywodraeth Cymru 2014 (Prif).
- 1.20 Gan ddefnyddio model rhagfynegi POPGROUP, cyflwynir yr ystod lawn o ganlyniadau twf anheddau (gan ddefnyddio rhagdybiaethau model aelwydydd LIC 2014) ochr yn ochr â'r allben **Gwaelodlin OE** (Ffigur 5).



Ffigur 5: Blaenau Gwent – senarios twf poblogaeth ac anheddau